O FOD YN CYNORTHWYO I FOD YN ATHRAWES...

# Astudiaeth Achos **Olivia Davies**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

## Wedi iddi raddio gyda gradd israddedig mewn Saesneg a Chelf Gain ym Mhrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant, doedd Olivia ddim yn siŵr beth i'w wneud nesaf wrth edrych am swydd. Roedd hi'n gwybod ei bod eisiau gweithio gyda phlant, ond yn ansicr o ran sut a lle i ddechrau.

"Roeddwn yn credu ei bod yn syniad da i fi fagu ychydig o brofiad o wirfoddoli gyda phlant i ddechrau, er mwyn sicrhau mai dyma'r llwybr cywir i fi ei ddilyn. Cysylltais gyda'r ysgol gynradd leol sydd yn agos i fy nghartref yn Ne Cymru, ac fe wnaethant gynnig cyfnod o brofiad gwaith i fi.

"I ddechrau gwirfoddolais fel cynorthwyydd yn y dosbarth ambell i brynhawn yn yr wythnos, arweiniodd hynny at ddyddiau llawn – byddwn yn gwrando ar blant yn darllen, neu yn eu helpu gyda'u gwaith yn y dosbarth. Dyma lle y dechreuodd bopeth, oherwydd ychydig yn ddiweddarach hysbysebwyd swydd llawn amser fel cynorthwyydd addysgu yn yr ysgol, a phenderfynais fynd amdani.

**Dyna ddechrau'r daith i ddod yn athrawes gymwysedig.**

"Ar ôl tua dwy flynedd o weithio fel cynorthwyydd addysgu, siaradodd fy mhrifathrawes â fi am fy mhotensial a'm hannog i hyfforddi i fod yn athrawes.

Roeddwn yn hynod falch ei bod yn credu ynof fi ac yn credu y byddwn i'n dda yn y swydd, ond nid oeddwn yn awyddus i fynd yn ôl i'r brifysgol a hyfforddi unwaith eto, yn enwedig ar ôl i fi dreulio tair blynedd yno eisoes wrth wneud fy ngradd.

"Ond dywedodd fy mhrifathrawes bod modd i fi ennill cyflog wrth hyfforddi a gwneud hynny drwy weithio'n fy ysgol bresennol. Roedd hynny'n golygu fy mod eisoes yn adnabod yr holl staff a disgyblion ac nid oedd rhaid i fi boeni am gymryd 'amser allan' i hyfforddi.

Oherwydd bod gen i radd eisoes, dim ond blwyddyn o hyfforddiant fyddai'n rhaid i fi ei wneud. Roedd hynny'n grêt oherwydd erbyn hynny roeddwn yn 22, roedd gan y rhan fwyaf o'm ffrindiau swyddi, ac roeddwn yn dechrau teimlo fel fy mod yn cael fy ngadael allan! Felly, nid oedd yn teimlo fel cam mawr o gwbl – roeddwn yn teimlo ei fod yn gyraeddadwy ac mai dyma'r cam naturiol nesaf i fi.

**Cyflawnodd Olivia ei chwrs hyfforddiant i fod yn athrawes ar ôl blwyddyn, a daeth yn Athrawes Newydd Gymhwyso (ANG) yn yr un ysgol ag yr oedd yn gwirfoddoli ac yn hyfforddi ynddi.**

"Dwi'n deall bod hyn yn swnio'n wirion, ond rwyf wrth fy modd gyda'r cyfrifoldeb sy'n deillio o fod yn athrawes!

Dwi'n gallu rheoli, o fewn rheswm, fy ngwersi a chynllunio beth rwy'n mynd i'w addysgu ac o dan themâu penodol – rwy'n gallu gweithio gyda'r plant a darganfod beth y bydden nhw'n hoffi ei ddysgu hyd yn oed. Mae'r gallu i weithio'n annibynnol lle nad oeddwn yn gallu o'r blaen, a'r gallu i feddwl yn greadigol, yn un o fy hoff bethau am gymryd y cam i ddod yn athrawes."

**Mae gan Olivia ychydig o gyngor i gynorthwywyr addysgu eraill sydd yn ystyried symud ymlaen gyda'u gyrfa.**

"Mae addysgu'n broffesiwn sy'n dod â phobl ynghyd. Mae pawb sydd yn gwneud y swydd ynddi oherwydd eu bod wrth eu boddau'n helpu plant a gweithio'n greadigol gyda phobl eraill – dyna pam mae'n debyg dy fod eisoes yn gynorthwyydd addysgu. Mae'n bosibl i ti gael amrywiaeth o brofiadau a chyfleoedd – nid oes unrhyw ddau ddiwrnod yr un fath ac mae cymaint o amrywiaeth sy'n golygu nad wyt ti'n diflasu.

"Mae'r staff yn gefnogol tu hwnt yn ogystal â ffrindiau a theulu – mae pawb yn cofio eu profiad personol eu hunain o fod yn yr ysgol, felly mae'n bosibl i bawb gysylltu a dy gynorthwyo i wneud y gorau posibl i'r disgyblion. Rydw i newydd addysgu pwnc am y Rhufeiniaid, a daeth fy nheulu â chardiau post a nwyddau i mi wedi iddynt fod ar eu gwyliau'n ddiweddar yn yr

Eidal, er mwyn fy nghynorthwyo i ddod â'r pwnc yn fyw yn yr ystafell ddosbarth. Allai ddim meddwl am unrhyw swydd arall sy'n gwneud i ti deimlo mor dda am yr hyn rwyt ti'n ei wneud – ac fe allech chithau wneud hyn! Yn sicr mae'n bosib ei gyflawni – peidiwch â bod ofn mentro, oherwydd mae unrhyw beth yn bosibl."

#AddysguCymru
www.addysgwyr.cymru